

Criw Celf: Gwybodaeth Brosiect

Gwybodaeth Gyffredinol am y Prosiect

Prosiect y Cyngor Celfyddydau Cenedlaethol yw Criw Celf a gyflwynir ar draws Cymru. Yn Ysgol Gelf Caerfyrddin yng Ngholeg Sir Gâr rydym yn cyflwyno'r Prosiectau Criw Celf canlynol: Portffolio a Chodi'r Bar.

Anelir **Portffolio** at ddysgwyr ym mlynnyddoedd ysgol 10 ac 11 (TGAU)

Anelir **Codi'r Bar** at ddysgwyr ym mlynnyddoedd ysgol 12 ac 13 (Lefel UG a Safon Uwch)

Mae Ysgol Gelf Caerfyrddin wedi bod yn ddigon ffodus i gyflwyno'r prosiect am y naw mlynedd ddiwethaf, gan weithio'n agos gydag ysgolion, colegau, cymunedau addysg yn y cartref, awdurdodau lleol, diwydiannau creadigol a sefydliadau.

Mae'r prosiectau wedi bod yn llwyddiant ysgubol ac rydym yn falch ein bod wedi gallu cael effaith gadarnhaol ar ddilyniant a theithiau creadigol a wnaed gan gannoedd o artistiaid ifanc yng Ngorllewin Cymru.

Fel rhan o Portffolio a Chodi'r Bar hefyd gwahoddir dysgwyr i:

- Fynychu Pum Dosbarth Meistr yn Ysgol Gelf Caerfyrddin, Campws Heol Ffynnon Job
- Cymryd rhan mewn ymweliad addysgol
- Arddangos gwaith mewn arddangosfa gyhoeddus ddiwedd y flwyddyn

Llinell Amser Arfaethedig y Prosiect

Dydd Gwener 24ain Medi i ddydd Gwener 15fed Hydref 2021

Bydd ceisiadau ar gael ar wefan y coleg o ddydd Gwener 24ain Medi 2021 ymlaen.

Bydd angen cyflwyno ceisiadau erbyn 4.30pm ar ddydd Gwener 15fed Hydref 2021.

Dydd Llun 18fed Hydref i ddydd Iau 21ain 2021

Bydd ceisiadau'n cael eu prosesu. Noder, nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael. Ni fyddwn yn gallu cynnig lle i bob ymgeisydd.

Dydd Iau 21ain Hydref 2021

Bydd y coleg yn cysylltu ag ymgeiswyr.

Bydd ymgeiswyr llwyddiannus yn derbyn gwybodaeth lawn ynghylch cofrestru a'r cwrs.

Bydd ymgeiswyr aflwyddiannus yn derbyn gwybodaeth am ddosbarthiadau meistr rhagflas eraill.

Dyddiad i'w gadarnhau Hydref 2021

Gwahoddir ymgeiswyr llwyddiannus i gofrestru yn Ysgol Gelf Caerfyrddin, Coleg Sir Gâr, Campws Heol Ffynnon Job, Heol Ffynnon Job, Caerfyrddin, SA31 3HY

Tachwedd 2021 - Mawrth 2022

Portffolio - bydd un gweithdy'r mis yn cael ei gyflwyno ar nos Fawrth rhwng 5-8pm yn Ysgol Gelf Caerfyrddin. Dyddiadau a manylion y gweithdai i'w cadarnhau.

Codi'r Bar - bydd un gweithdy'r mis yn cael ei gyflwyno ar nos Fawrth rhwng 5-8pm yn Ysgol Gelf Caerfyrddin. Dyddiadau a manylion y gweithdai i'w cadarnhau.

Dyddiadau a manylion yr ymweliad addysgol a'r arddangosfa i'w cadarnhau.

Noder y gall y dyddiadau hyn newid

Cost y Prosiect

Mae ffi o £20 yn gysylltiedig â'r prosiectau Criw Celf, Portffolio a Chodi'r Bar.

Mae'r ffi o £20 yn cwmpasu'r gost o gofrestru, pum dosbarth meistr, un ymweliad addysgol ac arddangosfa diwedd y flwyddyn. Yn ychwanegol at hyn bydd dysgwyr hefyd yn derbyn pecyn celf, portffolio, cyngor ac arweiniad ynghylch dilyniant a thystysgrifau cyflawniad.

Mae'r £20 yn daladwy wrth gofrestru.

Ceisiadau 2021/22

Bydd angen i ddysgwyr gwblhau a chyflwyno ffurflen gais ar-lein.

Mae angen e-bostio/rhannu'n ddigidol ceisiadau wedi'u cwblhau draw at

criwcelf@colegsirgar.ac.uk erbyn **4.30pm ar ddydd Gwener 15fed Hydref 2021**

Cyswllt

I gael mwy o wybodaeth cysylltwch ag Imogen Mills (Rheolwr y Prosiect)

criwcelf@colegsirgar.ac.uk